OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1324

# Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008

## RHAN 1

CYFFREDINOL

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 13 Mehefin 2008.

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**3.** Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2008" ("*the 2008 Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008(**1**).

### Diwygio Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008

**4.** Diwygir Rheoliadau 2008 fel a ganlyn.

**5.** Yn rheoliad 18(3), yn lle'r ffigur "25,580", rhodder y ffigur "27,115".

**6.** Yn lle paragraffau 8(1)(b) ac 8(1)(c) o Atodlen 2 rhodder—

"(b) a oedd yn preswylio fel arfer yng Nghymru ac wedi ymsefydlu yn y Deyrnas Unedig yn union cyn gadael y Deyrnas Unedig i arfer hawl i breswylio;

(c) sydd yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y dyddiad perthnasol;".

**7.** Ym mharagraff 4(2)(a) o Atodlen 3 hepgorer y geiriau "a delir gan y myfyriwr" ac "y myfyriwr".

(**1**) O.S. 2008/18 (Cy. 7).